

Ymgynghoriad cymunedol – Bywyd Gwylt yn eich Ward

Mae gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin gyllid ar gyfer prosiect i greu proffil 'Bywyd Gwylt yn eich Ward' ar gyfer wardiau'r sir.

Gall Canolfan Gofnodion Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru ger Hendy-gwyn ar Daf roi ychydig o wybodaeth i ni am fyfyr natur ym mhob ward. Fodd bynnag, mae arnom angen help unigolion o gymunedau lleol ym mhob ward sy'n adnabod eu hardal leol orau.

Byddem wrth ein boddau pe gallech ddweud wrthym am y canlynol:

- y bywyd gwylt a welwch yn lleol - pa fathau o adar, mamaliaid, ffyngau, planhigion, pryfed neu ymlusgiaid a welwch yn eich ward - o rywogaethau a welwch trwy gydol y flwyddyn, i ymwelwyr yr haf, y cyffredin yn ogystal â'r prin,
- eich hoff lwybrau cerdded neu feicio lle rydych yn byw,
- y lleoedd gorau i weld byd natur yn eich ward - coedwigoedd, dolydd, afonydd, corysdd, mignenni, arfordiroedd, parciau, gwrychoedd, neu eich gardd eich hun o bosibl.

Hoffem hefyd pe baech yn anfon lluniau atom o'r bywyd gwylt a'r cynefinoedd yn eich ardal leol y gallem eu defnyddio yn y proffil (bydd yr holl luniau'n cael eu cydnabod).

Yn olaf, bydd arnom angen eich help i roi gwybod i eraill pa mor arbennig yw bywyd gwylt eich ward. Un o'r ffyrdd gorau o wneud hyn yw ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol - Facebook, Twitter, Instagram, Nextdoor neu beth bynnag arall rydych yn ei ddefnyddio.

Byddem yn gwerthfawrogi eich help yn fawr. Bydd y proffiliau yn cael eu creu er mwyn i ysgolion lleol, cynghorau cymuned a grwpiau eraill eu defnyddio a'u rhannu, a gobeithio y byddant yn annog pawb i edrych yn agosach ar yr hyn sydd o'n cwmpas.

I gael gwybod beth yw ffin eich ward ewch i:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/yn-fy-ardal/> a dewiswch yr opsiwn 'Wardiau Etholiadol' yn y gwymplen.

Anfonwch eich gwybodaeth at: Biodiversity@sirgar.gov.uk

Mae angen i ni gwblhau'r prosiect hwn erbyn mis Mawrth felly pe gallech anfon eich gwybodaeth atom erbyn **8 Ionawr** bydd hynny wir yn ein helpu i greu'r proffiliau mewn da bryd.

